Pam dylwn i gredu'r Efengylau?



Cyfeiria'r teitl 'Efengylau' at y pedwar llyfr cyntaf yn y Testament Newydd, sef Mathew, Marc, Luc ac Ioan. A oes modd eu derbyn yn gofnodion cywir a hanesyddol? Nid cwestiwn dibwys yw hwn, oherwydd yn y llyfrau hyn cawn ddisgrifiad o fywyd, gwaith, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist.

Hoffwn ateb y cwestiwn trwy ofyn sawl cwestiwn arall.

Pryd?

Pryd yr ysgrifennwyd yr Efengylau? Rhwng 65-90 OC. Efengyl Marc a ddaeth yn gyntaf a defnyddiodd Mathew a Luc Efengyl Marc ar gyfer peth o'u cynnwys. O'r herwydd, gelwir Mathew, Marc a Luc yn Efengylau Cyfolwg (*Synoptic*). Roedd Ioan yn fwy annibynnol wrth drefnu ei lyfr ac mae'n rhoi tipyn o dystiolaeth bersonol oherwydd iddo dreulio tair blynedd gyda'r Iesu fel disgybl.

Pam?

Pam *pedair* Efengyl? Ysgrifennodd pob awdur mewn sefyllfaoedd amrywiol ac er mai'r un oedd y neges, mae gan bob un bwyslais gwahanol. Ysgrifennodd Mathew at Iddewon, felly pwysleisiodd yr Hen Destament i ddangos mai'r Iesu oedd y Meseia. Ysgrifennodd Marc at gynulleidfa Roegaidd gan dynnu sylw at lawer o ddigwyddiadau ym mywyd Iesu a oedd yn dangos ei fod yn Fab Duw ac yn Frenin. Ysgrifennodd Luc at Theophilus a llawer o rai eraill i ddangos mor ddibynadwy yw hanes Iesu i gredinwyr ymhobman. Poenai am y tlawd, gwragedd a'r Cenhedloedd, sef pobl y tueddai'r Iddewon i'w dirmygu. Ysgrifennai Ioan ar gyfer Iddewon a oedd yn byw y tu allan i Israel; mae'n rhoi mwy o bwyslais ar athrawiaeth Iesu yng nghyd-destun rhai gwyrthiau neu 'arwyddion' fel y'u gelwir.

Beth?

Beth oedd diben ysgrifennu'r Efengylau? Roedd llawer o Gristnogion a oedd yn dystion i waith Iesu wedi marw erbyn 60 OC, felly roedd angen cofnodi hanes ac athrawiaeth y Gwaredwr tra oedd y ffeithiau yn dal i fod yn hysbys. Ond roedd pwrpas arbennig hefyd gan yr awduron. Eglura Ioan ei reswm dros ysgrifennu yn y geiriau hyn:

> Ond y mae'r rhain wedi eu cofnodi er mwyn i chwi gredu mai Iesu yw'r Meseia, Mab Duw, ac er mwyn i chwi trwy gredu gael bywyd yn ei enw ef.

Er mwyn efengylu a dysgu Cristnogion y lluniwyd yr Efengylau ac maent o werth amhrisiadwy i ni am eu bod yn cyfleu neges a gwaith Iesu i ni.

Sut?

Sut yr ysgrifennwyd yr Efengylau? Nid disgyn o'r nef mewn ffordd ddirgel a gwyrthiol a wnaethant! Trefnodd Duw well ffordd i roi hanes dibynadwy i ni am Iesu.